# ATODLENNI

## ATODLEN 2

Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan gynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad perthnasol

# RHAN 3

## Y Bleidlais mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

Camau i'w cymryd cyn y bleidlais

**Papurau pleidleisio post**

**28.**—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau, yn unol â rheoliadau o dan Ddeddf 1983, ddyroddi i'r rhai sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post—

(a) papur pleidleisio,

(b) datganiad pleidleisio post yn y ffurf a nodir yn Atodiad 4 neu ffurf i'r un perwyl, ac

(c) unrhyw amlenni ar gyfer dychwelyd y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio post a ragnodir gan reoliadau o dan Ddeddf 1983.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd ddyroddi i'r rhai sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post unrhyw wybodaeth y mae'r swyddog canlyniadau o'r farn ei bod yn briodol ynghylch sut i gael—

(a) cyfieithiadau i ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg o unrhyw gyfarwyddydau neu ganllawiau i bleidleiswyr a anfonir gyda'r papur pleidleisio,

(b) cyfieithiad i Braille o'r cyfarwyddydau neu'r canllawiau hynny,

(c) delweddau graffig o'r cyfarwyddydau neu'r canllawiau hynny, a

(d) y cyfarwyddydau neu'r canllawiau ar unrhyw ffurf arall (gan gynnwys unrhyw ffurf glywadwy).

(3) Rhaid i'r datganiad pleidleisio post gynnwys darpariaeth—

(a) i'r ffurflen gael ei llofnodi gan yr etholwr neu, pan fo'r etholwr yn pleidleisio drwy ddirprwy, gan y dirprwy, oni bai bod y swyddog cofrestru wedi hepgor y gofyniad ynglŷn â llofnod, a

(b) ar gyfer datgan dyddiad geni'r etholwr neu, pan fo'r etholwr yn pleidleisio drwy ddirprwy, dyddiad geni'r dirprwy.

(4) Yn achos papur pleidleisio a ddyroddir i berson mewn cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, rhaid i'r swyddog canlyniadau sicrhau bod y pleidleisiwr yn gallu dychwelyd y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio post yn rhad ac am ddim.

(5) Pan nad y swyddog canlyniadau cydlynol yw'r swyddog canlyniadau, gweler hefyd reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau Cyfuno Pleidleisiau (sy'n darparu ar gyfer amgylchiadau lle mae swyddogaethau'r swyddog canlyniadau o dan y rheol hon i gael eu cyflawni gan y swyddog canlyniadau cydlynol).